# DOD I ADNABOD EICH COETIR – Canllaw 2

## CYNLLUN RHEOLI

Y ffordd orau i ddod i adnabod eich coetir yw gofyn i arbenigwr coetir ymuno â chi i gerdded drwy eich coetir. Gall yr arbenigwr archwilio'r coetir ar eich rhan a'ch helpu i nodi eich amcanion. Gall hyn wedyn arwain at greu cynllun rheoli, a fydd yn awgrymu'r gweithgareddau mwyaf addas ar gyfer eich coetir. Gall cynllun rheoli ddarparu'r canlynol:

- Penderfyniadau clir i nodi amcanion
- Cyfarwyddyd clir ar gyfer argymhellion i gyflawni'r amcanion hynny
- Pob caniatâd ac ymgynghoriad gofynnol gyda rhanddeiliaid gan gynnwys trwyddedau cwympo ac adroddiadau ar arolygon rhywogaethau a warchodir gan Ewrop a nodir yn y cynllun
- Rheoli'r adnodd i wella perfformiad amgylcheddol y fferm – rheoli tir yn gynaliadwy
- Creu refeniw drwy farchnata pren neu ddefnyddio'r adnodd i ychwanegu gwerth ar y fferm e.e. tanwydd ar gyfer biomas neu werth ychwanegol drwy drin pren i gynhyrchu pyst neu gladin er enghraifft
- Cynnal a gwella'r coetir o safbwynt elw economaidd, amwynder preifat, bioamrywiaeth a thirwedd

Yn ei hanfod, mae cynllun rheoli coetir yn ddogfen weithredol, sy'n darparu pwynt canolog i gadw'r holl waith papur sy'n gysylltiedig â rheoli coetir, ynghyd â gwybodaeth ynglŷn â'r ffiniau, nodweddion a rhinweddau'r coetir. Dyma rai o'r pwyntiau y dylid eu trafod a'u cynnwys o fewn y cynllun:

- Gweledigaeth ac amcanion – dylai'r rhain fod yn benodol i'ch safle ac yn realistig o ran graddfa'r coetir.
  Dylid ystyried materion amgylcheddol, economaidd ac amwynder
- Disgrifiad byr o'r holl goetiroedd yr ydych yn eu rheoli gan gynnwys:
  Math o goetir: e.e. coetir hynafol, planhigfa; Math o bridd; strwythur y coetir a thir agored presennol gan gynnwys cynefinoedd penodol, e.e. mawn, cyrsiau dwr neu byllau.
- Rheolaeth hanesyddol. Chwiliwch am unrhyw drwyddedau cwympo neu adroddiadau sy'n berthnasol i'r coetir a sicrhewch fod ffiniau ar y map yn gywir

Bydd yr arbenigwr coetir yn defnyddio'r templed cynllun rheoli coetir fel sylfaen ar gyfer canlyniadau'r arolwg,
ac yn rhestru cynigion ar gyfer rheoli, ynghyd ag amserlen ar gyfer gwaith.

Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, gellir cyfrifo cost gweithredu'r rhaglen waith, ynghyd â rhagolwg o unrhyw refeniw o werthu pren fel sylfaen ar gyfer elfen ariannol y prosiect.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

GARDDWRIAETH
HORTICULTURE